# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 31 Ionawr 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

**Yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2023, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o gyfarfod heddiw.**

**Cofrestru (09.15-09.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(09.30)

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25: Trafod yr adroddiad drafft

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 104)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-03-24 P1 - Adroddiad drafft

- Pennod 1 - Cyflwyniad
- Pennod 2 - Trosolwg a Chyd-destun Economaidd
- Pennod 3 - Naratif a Chyflwyniad y Gyllideb
- Pennod 4 - Ysgogwyr Cyllidol
- Pennod 5 - Cymorth Costau Byw
- Pennod 6 - Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cyhoeddus

## 3 Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion

(10.30-11.00) (Tudalennau 105 - 118)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-03-24 P2 – Papur blaen

FIN(6)-03-24 P3 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – 14 Tachwedd 2023

FIN(6)-03-24 P4 – Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – 12 Rhagfyr 2023

FIN(6)-03-24 P5 – Llythyr gan Gomisiwn y Senedd – 11 Rhagfyr 2023

FIN(6)-03-24 P6 – Llythyr gan Archwilio Cymru – 20 Rhagfyr 2023

## 4 Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol – Gweinyddu Treth Incwm Cymru 2022-23

(11.00-11.15) (Tudalen 119)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-03-24 P7 – Llythyr gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (yn cynnwys linc i'w hadroddiad, 'Gweinyddu Treth Incwm Cymru 2022-23' – 19 Ionawr 2024.

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14Tachwedd 2023

Annwyl Peredur,

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynghylch yr adolygiad o'r datganiad o egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (DFBs).

Rwyf yn nodi'r adborth yr ydych wedi'i gael ynghylch yr wybodaeth ariannol yn y llythyr blynyddol yr wyf yn ei ddarparu i'r Pwyllgor i gefnogi blaengynllunio ar gyfer y cyrff hynny. Fel y dywedwch, nid yw sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru ei hun y tu hwnt i'r flwyddyn bresennol yn glir yn aml, felly nid oes modd darparu canllawiau manwl bob amser ar ragolygon cyllidol yn y dyfodol. Er hynny, rwyf yn hapus i ystyried a oes modd darparu gwybodaeth ychwanegol tymor hwy os byddai hynny'n ddefnyddiol, gan edrych ar wahanol senarios cyllido posibl yn y dyfodol.

Rwyf eisoes yn darparu Datganiad Ysgrifenedig yn dilyn Datganiad Hydref Llywodraeth y DU, sy'n nodi'r goblygiadau i Gyllideb Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae Adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddir ochr yn ochr â'n Cyllideb Ddrafft, yn cynnwys gwybodaeth am ragolygon cyllidol tymor canolig. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth Datganiad Llywodraeth y DU ar gyfer yr Hydref a'r rhagolygon diweddaraf gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Cyhoeddir cyllidebau atodol fel mater o drefn ym mis Mehefin a mis Chwefror bob blwyddyn ariannol. Gall yr union amseriadau ddibynnu ar galendr y Senedd o ran pryd y mae toriad yn disgyn a chyhoeddi Prif Amcangyfrifon ac Atodol Llywodraeth y DU. Yn ymarferol, hysbysir y DFBs am ddyddiadau cyllidebau atodol pan fyddaf yn hysbysu'r Pwyllgor. Er hynny, at y dyfodol, byddaf yn anfon copi o'm llythyr at y Pwyllgor at y DFBs i ffurfioli ein cyfathrebiadau am y dyddiadau hynny.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Eich cyf:
Ein cyf: MAM/mm
Dyddiad: 12 Rhagfyr 2023

Gofynnwch am: Michelle Morris
[redacted]
[redacted]

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

**Trwy e-bost yn unig**
SeneddCyllid@senedd.cymru

Annwyl Peredur

**Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion**
Cyfeiriaf at eich llythyr o 18 Hydref am eich adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion. Diolch am ymgynghori â mi ar hyn.

**Eglurder y sefyllfa ariannu yn y sector cyhoeddus**
Mae eich llythyr yn archwilio rhai o'r heriau sy'n ymwneud ag amseriad ein Hamcangyfrif, yn benodol, lle nad yw'r amseru cyfredol yn cyd-fynd yn dda â digwyddiadau ariannol y DU. Cydnabyddaf fod y sefyllfa wedi'i chymhlethu gan oedi ac ansicrwydd o ran cyhoeddiadau a phenderfyniadau ariannol y DU, ond mae'r amseru presennol yn peri anawsterau. Caiff ein Hamcangyfrif ei pharatoi ym mis Medi, i'w hystyried gan eich Pwyllgor ym mis Hydref. Mae hynny 6 mis cyn dechrau'r flwyddyn. Pan fo cyllid cyhoeddus a chwyddiant yn ansicr ac yn gyfnewidiol, mae hynny'n golygu y gall rhagdybiaethau, er enghraifft ynghylch chwyddiant a dyfarniadau cyflog, fod yn sylweddol hen erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

**Annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru a Chyllidebau Atodol.**
Croesawaf eich sylwadau am annibyniaeth cyrff a ariennir yn uniongyrchol a'ch bwriad i egluro hyn ar dudalennau gwe eich Pwyllgor. Er y byddai mwy o eglurder yn ddefnyddiol, mae'r mater mwy sylweddol yn ymwneud â'r ddibyniaeth ar Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â chyllideb atodol gan gorff a ariennir yn uniongyrchol yn dilyn cefnogaeth y Pwyllgor Cyllid. Fel y mae eich llythyr yn nodi, nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ddod â chyllideb atodol yn ei blaen yn dilyn cyflwyniad gan gorff a ariennir yn uniongyrchol. Mae hynny, yn y bôn, yn herio'r egwyddor o annibyniaeth ac yn caniatáu i Lywodraeth Cymru wrthod cyllidebau atodol gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol. Gan fod gan yr holl gyrff a


ariennir yn uniongyrchol ryw lefel o oruchwyliaeth dros Lywodraeth Cymru, nid yw hynny'n briodol.

Nid oes gennym unrhyw gronfeydd wrth gefn a dim arian i'w drosglwyddo drosodd, felly mae proses y gyllideb atodol o gryn bwysigrwydd i ni. Caiff ein cyllideb ei defnyddio gan mwyaf gan gostau staff ac yn bennaf gan adeiladau sefydlog a chostau TG. Felly, ychydig iawn o hyblygrwydd sydd gennym yn ein cyllideb ac mae'r camau cyfyngedig y gallem eu cymryd i wrthbwyso pwysau cost annisgwyl (er enghraifft, peidio â llenwi swyddi gwag) yn creu ansefydlogrwydd ac yn effeithio'n andwyol ar gyflenwi gwasanaeth. Proses y gyllideb atodol yw'r unig ffordd sydd gennym o reoli pwysau ariannol newydd sylweddol ac, os caiff ei chefnogi gan eich Pwyllgor, mae'n bwysig y caiff cynnydd ei wneud yn brydlon ar gyllidebau atodol.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru, hyd yma, wedi cymryd cyllidebau atodol a gynigiwyd gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol ac a gefnogir gan eich Pwyllgor. Fodd bynnag, i roi sylw i'r risg hon i annibyniaeth, byddwn yn cefnogi diwygiadau i Reolau Sefydlog sy'n ei gwneud yn **ofynnol** i bob pwrpas i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen (yn amodol ar ganlyniad ystyriaeth eich Pwyllgor) â'r cyllidebau atodol a geisir gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol, o fewn cyfnod penodol. Rwy'n ymwybodol efallai na chaiff y newid hwn ei gyflawni'n gyflym, ac yn y cyfamser, gallai fod yn ddefnyddiol pe bai eich Pwyllgor yn adrodd ar wahân ar gyllidebau atodol gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol (yn hytrach nag ymgorffori hyn yn yr adroddiad ar eich gwaith craffu ar Gyllideb Atodol gyffredinol Llywodraeth Cymru) ac yn gwneud argymhelliad penodol i Lywodraeth Cymru bod cynnydd yn cael ei wneud ar gyllidebau atodol gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol drwy'r Senedd o fewn cyfnod penodol. Byddai'r newidiadau hyn yn adlewyrchu ac yn cefnogi annibyniaeth cyrff a ariennir yn uniongyrchol. Byddent hefyd yn rhoi mwy o reolaeth i gyrff a ariennir yn uniongyrchol pan fyddant yn cyflwyno cyllidebau atodol yn ogystal â chaniatáu i'ch Pwyllgor ystyried materion yn annibynnol, yn hytrach na gweithio yn unol ag amserlenni Llywodraeth Cymru.

Gobeithiaf fod yr ymateb hwn yn gyfraniad defnyddiol i'ch ystyriaeth.

Yn gywir



**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Drwy e-bost

11 Rhagfyr 2023

Annwyl Peredur

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Hydref 2023 ac am y cyfle i gyfrannu at yr Adolygiad o Broses y Gyllideb Atodol.

Er mwyn nodi ein materion, fe amlinellaf y broses ar gyfer cyllidebu ar gyfer y Comisiwn, a'r prif resymau pam y mae'n ofynnol i ni ddefnyddio'r broses o wneud cais am gyllideb atodol.

Mae Comisiwn y Senedd, oherwydd amseriad gosod ei gyllideb ddrafft erbyn 1 Hydref, sef bron ddeufis cyn Datganiad hydref y DU a thri mis cyn cyllideb Llywodraeth Cymru, yn canfod ei fod yn gorfod gosod cyllidebau sy'n seiliedig ar wybodaeth sydd wedi dyddio, neu'n methu â chyllidebu'n gywir gan ei fod yn aros am benderfyniadau sy'n cael eu cymryd yn unol ag amserlen cyllideb Trysorlys y DU. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Y newidiadau trethiant a nodwyd yn natganiad yr Hydref;
- Y Prisiad Tair Blynedd o bensiwn y Gwasanaeth Sifil a'r newidiadau i gyfraniadau pensiwn y cyflogwr;
- Prosiectau mawr nad yw'r manylion amdanynt wedi'u nodi'n llawn ar adeg y cyllidebu, a gyflwynir chwe mis llawn cyn dechrau'r flwyddyn y mae'r gyllideb yn berthnasol iddi.

Mae'r mathau hyn o newidiadau yn creu'r angen am geisiadau cyllideb atodol er mwyn, naill ai wneud cais am ragor o arian neu ddychwelyd arian oherwydd costau is. Mewn rhai blynyddoedd canfyddwn fod yn rhaid inni wneud y ddau beth hyn.

Isod rwyf wedi nodi ein barn ar y prosesau ar gyfer y gyllideb atodol a'r gyllideb flynyddol, ac wedi gwneud rhai awgrymiadau ar sut y gellid mynd i'r afael â rhywfaint o hyn.

**Y Gyllideb Atodol**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

Mae'r taliad costau byw a wnaed i staff y Comisiwn yn y flwyddyn ariannol hon wedi amlygu rhai problemau gyda phroses y gyllideb atodol y gallai fod yn ddefnyddiol mynd i'r afael â hwy.

Mae Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (GOWA) yn manylu ar y broses ar gyfer cyllideb atodol i Lywodraeth Cymru ac ar gyfer y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru (sef Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol neu “DFBs”).

Ymhelaethir ar ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru yn y Rheolau Sefydlog.  Deallaf mai’r arfer a anogwyd gan y Pwyllgor a’ch rhagflaenodd, ac a barhaodd gyda’r Pwyllgor Cyllid presennol, oedd i’r DFBs gyflwyno Memoranda Esboniadol drafft cyn i’r cynnig cyllideb atodol gael ei osod gan Lywodraeth Cymru.  Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor graffu ar y ceisiadau.  Roedd y broses hon yn lleihau’r risg y byddai cais gan Gorff a Ariennir yn Uniongyrchol yn arwain at wrthod cyllideb atodol gyfan Llywodraeth Cymru.

Mae’r Comisiwn yn derbyn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru yn unig gael yr hawl i gyflwyno cynigion cyllideb atodol.  Byddai'n ddefnyddiol, fodd bynnag, i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i ffurfioli'r broses a ddisgrifir uchod.  Felly, pan fyddai dyddiad cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru yn hysbys, y byddai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, pe bai angen amrywio eu cyllidebau y cytunwyd arnynt, yn cyflwyno eu memorandwm esboniadol i'r Pwyllgor cyfrifol.  Byddai hyn yn digwydd cyn i’r cynnig gael ei gyflwyno, er mwyn caniatáu amser i bwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad a gwneud argymhellion ynghylch y ceisiadau am wybodaeth ychwanegol a wneir gan y Corff/Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

Byddai’r dull hwn yn dileu unrhyw ganfyddiad y gallai Llywodraeth Cymru “rwystro” ceisiadau gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol a chynnal eu hannibyniaeth.

**Cynnig Cyllideb Blynyddol**

Fel y gwyddoch, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi cynnal digwyddiad cyllidol yr hydref sydd wedi arwain at fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ohirio cyhoeddi ei Chyllideb. Mae’r anawsterau sy’n gysylltiedig â digwyddiad cyllidol hwyr yn y DU hefyd yn berthnasol i’r Comisiwn pan fyddwn yn paratoi ein cyllideb flynyddol.  Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod Rheolau Sefydlog 20.13 a 20.14 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Comisiwn osod ei gynigion cyllideb ddrafft erbyn 1 Hydref fan bellaf ac i bwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar y cynigion hynny erbyn 22 Hydref.  O ganlyniad, mae’n aml yn ofynnol i ni baratoi a gosod ein cyllideb ddrafft a’n cyllideb derfynol ar sail cyd-destun cyllidol anghyflawn.  Felly, ni allwn gyllidebu mor gywir ag yr hoffem oherwydd ein bod yn aros am benderfyniadau ynghylch lefelau ariannu o fewn Cronfa Gyfunol Cymru.  Cododd yr anhawster hwn yn arbennig eleni mewn perthynas â phrisiad tair blynedd Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (gweler fy llythyr dyddiedig 13 Tachwedd 2023).

Yn y pen draw, credwn y gallai fod yn ddefnyddiol diwygio'r Rheolau Sefydlog fel y gellir symud amserlen cyllideb y Comisiwn i ddyddiad diweddarach.  Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y gallai digwyddiadau cyllidol y DU newid eto i ddyddiad yn y gwanwyn a byddem am osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ganlyniad i hynny.  Am y rheswm hwnnw, yn y tymor byr, hoffem awgrymu newid bach i Reol Sefydlog 20.20 i ehangu’r amgylchiadau lle gallai’r Comisiwn gynnig

amserlen wahanol i'r un a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Awgrymir y gallai'r cyfeiriad at adolygiad o wariant fod yn ehangach, er mwyn caniatáu i'r Comisiwn ofyn am hyblygrwydd pe bai datganiad yr hydref yn hwyr, neu os mai bwriad Llywodraeth Cymru yw gosod cyllideb ddrafft hwyr.

Credwn y byddai gwneud y newid bach hwn yn rhoi'r hyblygrwydd inni newid amserlen cyllideb y Comisiwn pe bai digwyddiadau cyllidol ehangach yn arwain at y byddai hyn yn gwella ein gallu i gyllidebu'n gywir ac effeithiol.

Gobeithio bod y sylwadau hyn o gymorth.

Yn gywir

Ken Skates AS

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Kate Innes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Ffôn / Tel: 029 2032 0500
Ffacs / Fax: 029 2032 0600
Ffôn testun / Textphone: 029 2032 0660
post@archwilio.cymru / info@audit.wales
www.archwilio.cymru / www.audit.wales

Mr Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

**Cyfeirnod:** KC23010/AC401/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 20 Rhagfyr 2023

Annwyl Peredur

# Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion Diweddariad

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Hydref 2023. Rwy'n ymateb drosof fy hun a chyda'i chytundeb, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ystyried yr ymateb a gyflwynais ar 16 Mehefin 2023, er fy mod yn siŵr y byddwch yn deall fy siom nad ydych yn teimlo y gallwch gefnogi llawer o'r awgrymiadau a wneuthum. Er bod annog cyrff a ariennir yn uniongyrchol ("DFB"s) i fod yn ymwybodol o'r pwysau ar bwrs y cyhoedd yn rhesymol, rwy'n parhau i feddwl bod yr egwyddorion ychydig yn aneglur ac yn brin o gydnabyddiaeth o pam fod gan y cyrff a ariennir yn uniongyrchol brosesau cyllidebu penodol yn briodol er mwyn sicrhau bod cyllid cyorff a ariennir yn uniongyrchol yn cael ei gadw ar wahân i flaenoriaethu gwariant llywodraeth weithredol Gweinidogion Cymru.

Rwy'n falch, fodd bynnag, bod y Pwyllgor yn bwriadu rhoi rhywfaint o esboniad o'r prosesau cyllido penodol ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol ar ei dudalennau gwe. Yn yr un modd, mae'n galonogol bod y Pwyllgor yn cydnabod yr anawsterau a achosir gan yr oedi wrth gyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a'r wybodaeth gyfyngedig a ddarperir i lywio cynllunio cyllidebol. Ac mae'n galonogol bod y Pwyllgor yn awyddus i archwilio yn ystod rownd y gyllideb eleni a yw'r amserlenni ar gyfer cyllidebau ac amcangyfrifon a nodir yn Rheolau Sefydlog a deddfwriaeth yn addas i'r diben.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar bod y Pwyllgor wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn i'r Gweinidog roi manylion am unrhyw fwriad i gyflwyno cynnig cyllideb atodol. Gan

nodi eich bod yn teimlo ei bod yn anghymesur cynnig diwygio Rheolau Sefydlog i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu hysbysiad o'r fath, efallai y dylwn egluro beth rwy'n ei awgrymu a pham. Yn benodol, bwriad fy awgrym oedd cryfhau effeithiolrwydd swyddogaeth rheolwr yr Archwilydd Cyffredinol (cymeradwyaethau i dynnu) a symleiddio'r ymdrech sydd ei hangen i sicrhau bod y weithdrefn yn dal dŵr. Nid oeddwn yn awgrymu bod gofyn i Weinidogion hysbysu cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn gyffredinol. Byddwn yn awgrymu y gellir ymgorffori fy nghynnig ar gyfer hysbysiad o'r fath yn ddefnyddiol o hyd mewn unrhyw adolygiad mwy cyffredinol o'r gweithdrefnau sy'n digwydd cyn diwedd y Senedd gan y byddai'n sicr yn cryfhau'r system gyffredinol o reolaeth ariannol.

Rydych yn sôn mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer cyllidebau atodol bod profiadau diweddar ers eich llythyr ymgynghori ym mis Mai 2023 wedi cwestiynu cynaliadwyedd ac addasrwydd y gweithdrefnau hynny ac a ydynt yn adlewyrchu statws cyfansoddiadol y cyrff a ariennir yn uniongyrchol. Rwy'n rhannu eich pryderon.

Cyn ymchwilio i fanylion, credaf ei bod yn ddefnyddiol ystyried y trefniadau cyllidebol atodol yn eu cyd-destun ehangach. Fel y gwyddoch, mae adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer y broses gyllidebol atodol. Rhaid i'r adran honno, wrth gwrs, gael ei darllen a'i dehongli yng nghyd-destun ehangach Rhan 5 o'r Ddeddf (Cyllid), yn ogystal â Rheolau Sefydlog y Senedd.

Mewn crynodeb, mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn sefydlu Cronfa Gyfunol Cymru fel cyfrif niwtral ar gyfer cyllid Cymru. Gan adlewyrchu model seneddol San Steffan, mae'r Gronfa yn cael ei gweithredu gan Weinidogion Cymru ond nid yw'n eiddo iddynt nac yn cael eu rheoli ganddynt. Mae'r Gronfa'n darparu cyllid nid yn unig i Lywodraeth Cymru ond hefyd i'r Byrddau Diogelu Disgyblion, sef y "personau perthnasol" a ddiffinnir yn adran 124 o'r Ddeddf heblaw Llywodraeth Cymru. Mae'r Gronfa'n cael ei chadw gan y Cyflogfeistr Cyffredinol (yn ymarferol Gwasanaeth Bancio Llywodraeth y DU), a dim ond os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi cymeradwyaeth i dynnu arian y gellir ei dalu, a fydd ynddo'i hun ond yn cael ei roi os codir y swm ar y Gronfa drwy ddeddfwriaeth neu ei awdurdodi neu ei ystyried wedi'i awdurdodi gan benderfyniad cyllideb y Senedd. Mae'r rhain yn rheolaethau cyffredinol hanfodol i sicrhau bod y llywodraeth yn gwario arian gyda chymeradwyaeth seneddol yn unig.

Dim ond gweinidogion (adrannau 125(2) a 126(5) y gall cynigion cyllideb i gael cymeradwyaeth o'r fath, boed yn flynyddol neu'n atodol. Mae hyn yn adlewyrchu'r confensiwn cyfansoddiadol y mae'r llywodraeth yn gofyn amdani am arian ac mae'r Senedd (y Senedd) yn ei roi iddo. Mae'n werth nodi hefyd fel mater o ymarferoldeb bod gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfartaledd yn cyfrif am oddeutu 99.7% o faterion o'r Gronfa.

Fodd bynnag, mae cyfyngu ar symud cynigion cyllidebol yn gadael y cyrff a ariennir yn uniongyrchol ar drugaredd cydweithrediad Llywodraeth Cymru os oes angen i Fwrdd Cyllid Cymru wneud newid i'w gyllideb oherwydd datblygiadau annisgwyl. Gan na fydd gan y Byrddau Pensiynau gronfeydd wrth gefn ac yn gyffredinol maent yn gyfyngedig iawn o ran hyblygrwydd ariannol, mae hon yn broblem ddifrifol. Mae'n arbennig o broblemus yn achos Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n amodol ar reolau manwl ac anhyblyg iawn mewn perthynas â ffioedd, fel yr eglurwyd o'r blaen.

Byddai newid y ddeddfwriaeth er mwyn ehangu'r ystod o bobl sy'n cael eu galluogi i symud cynigion cyllidebol yn gwyriad o fodel San Steffan ac o ystyried y symiau cymharol fach iawn sy'n ofynnol gan y Byrddau Cyllid yn cael eu hystyried yn fesur anghymesur. Mae hefyd yn ymddangos yn debygol o achosi dryswch. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y model yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu'n briodol lle mae gan gorff a ariennir yn uniongyrchol yr angen i geisio newid atodol i'w gyllideb.

Byddwn i'n cefnogi gwelliant i'r Rheolau Sefydlog i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru bob amser ymgorffori a symud cynnig cyllideb atodol gan y corff a ariennir yn uniongyrchol. Yn fwy penodol, yr ymrwymiad fyddai ymgorffori cynnig cyllideb atodol unrhyw gynnig gan y Bwrdd Datblygu Rhanbarthol a osodwyd ac a adroddwyd arno gan y pwyllgor perthnasol. Os na fydd gwelliant i'r Rheolau Sefydlog yn ymarferol, efallai mai ateb llai ffurfiol fydd i'r Pwyllgor ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am ymgymeriad ysgrifenedig i'r un effaith.

Opsiwn arall efallai yw nodi disgwyliadau ychydig yn fwy cadarn trwy amserlen gyffredinol. Mae profiad yn dangos bod Llywodraeth Cymru, os nad cyrff a ariennir yn uniongyrchol, fel arfer angen dau gynnig cyllideb atodol bob blwyddyn: un tua mis Mehefin ac un tua mis Chwefror. Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol i bawb dan sylw, gan gynnwys y Senedd, geisio gosod y patrwm hwn fel yr amserlen arferol leiaf. Hynny yw, i'r Rheolau Sefydlog ei gwneud yn ofynnol i bob person perthnasol osod (neu gyflwyno i'r pwyllgor perthnasol) erbyn dyddiadau penodedig bob blwyddyn memorandwm esboniadol mewn perthynas â'r cynigion cyllidebol atodol dilynol gael eu symud gan Weinidogion. Pan nad oes angen newid adnoddau ar berson perthnasol, gall y memorandwm esboniadol nodi hynny. Byddai hyn yn rheoleiddio ac yn ymestyn arfer presennol y Pwyllgor ac yn lleihau'r risg neu'r canfyddiad y gall Llywodraeth Cymru ymyrryd ag ystyriaeth y Senedd o gyllidebau atodol mewn perthynas â chyrff a ariennir yn uniongyrchol. Byddai hefyd yn helpu'r Senedd i gael mwy o sicrwydd ynghylch amseriad cynigion cyllideb atodol.

Rwy'n gobeithio bod hynny'n ddefnyddiol. Byddem yn hapus i drafod ymhellach.

Yn gywir





**KATE CHAMBERLAIN**
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Eitem 4

National Audit Office

**The UK's independent public spending watchdog**

Comptroller and Auditor General
Gareth Davies

Telephone [redacted]
Email [redacted]

Date 19 January 2024

Peredur Owen Griffiths MS
Chair, Finance Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

By email: SeneddFinance@senedd.wales

Dear Peredur,

## ADMINISTRATION OF WELSH INCOME TAX 2022-23

I am pleased to be able to share with you my report on the Administration of Welsh rates of income tax 2022-23, which has been published today.

I should be very happy to discuss the findings of my report with you and other members of the Committee, if you would find this useful.

Yours sincerely,

**GARETH DAVIES**

157-197 Buckingham Palace Road, Victoria, London SW1W 9SP
020 7798 7000 www.nao.org.uk



ISOQAR REGISTERED
UKAS MANAGEMENT SYSTEMS 0026
Cert No. 8835
ISO 14001